

GOLYGFA 1 **19:00**

MEWN – TY IOAN – DYDD

(IOAN, TAD IOAN)

TAD IOAN WRTHI'N COGINIO SWPER, PAN DDAW IOAN ATO YN ANNWYL I GYD.

IOAN

Dad...?

DAD YN EDRYCH ARNO – BE RWAN?

IOAN

Ti'n gwbod y' mhen-blwydd i wsos nesa...?

DAD

Ia...?

IOAN

Wel... Dwi 'di bod yn meddwl...

DAD

O do?!

IOAN

Mi fysa'n rili cwl 'swn i'n cael ffôn fy hun...

DAD

Ioan, 'da ni 'di bod trwy hyn o'r blaen, ti'm yn cael ffôn.

IOAN YN AMLWG YN ANHAPUS EFO'R ATEB YMA, AC MAE EI ANWYLDEB YN PYLU.

IOAN

Ond ma' gin Efan ffôn 'i hun.

DAD

Ma' Efan dipyn hŷn na chdi.

TYDI ESBONIAD EI DAD YN AMLWG DDIM YN PLESIO IOAN.

IOAN

Di o'm yn actio'n hŷn na fi, ti'n deud bod o'n "anaeddfed"!

DAD

Sgîm hynny ddim byd i neud efo'r peth.

IOAN

Oes tad!

DAD

Gad dy frawd allan o hyn plis.

IOAN YN SYLWEDDOLI NAD YDI CWYNO AM EI FRAWD YN GWEITHIO. MAE'N TRIO SEBONI UNWAITH ETO.

IOAN

Plis Dad, fi di'r unig un yn fy nosbarth i sy' heb ffôn. Ma' hyd yn oed Jac efo un wan.

DAD

Ioan, dwi 'di deud a deud. Dim ots gin i am neb arall, ti ddim yn cael ffôn.

IOAN

Ond 'di hynna'm yn deg!

DAD

'Di bywyd ddim yn deg weithia.

IOAN YN PWDU.

IOAN

Am beth sdiwpid i'w ddeud.

DAD

Paid a siarad efo fi fel'na.

IOAN

Ond Dad...

DAD

Dim ond. Dwi 'di deud. Na.

IOAN YN AMLWG HEB GAEL BETH MAE O'I EISIAU. MAE O'N MARTSIO AT Y DRWS.

IOAN

Ti mor *annoying*!

IOAWN YN MARTSIO ALLAN TRWY'R DRWS AM EI LLOFFT.

MEWN - TY IOAN - DYDD

(GUTO, IOAN)

MAE'R DDAU YN CICIO PEL FOOTBALL YN YR ARDD GEFN OND MAE'R AWYRGYLCH YN CHWITHIG.

GUTO

Ti'n dawal iawn. Be' sydd?

IOAN

Dim byd.

GUTO

Ti'm yn arfar bod mor ddistaw â hyn.

IOAN

(SAIB HIR. MAGU PLWC)

Pam 'nes di'm dwad i mewn i ddeud helo wrtha fi noson o' blaen?

GUTO

Pa noson?

IOAN

Nos Lun. Nesi weld chdi'n gada'l drw ffenast, ond 'nes di'm dod i mewn i ddeud 'helo'.

GUTO DDIM YN DEALL AM BETH MAE IOAN YN SÔN.

IOAN (CONT'D)

O'dd Mam yn deud bod chdi 'di deud bod gin ti'm amsar. Fysa chdi 'di gallu jest deud helo basat?

GUTO

Be, oedda' chdi'n ty?

IOAN

O'n. O'n i'n lloffd yn sâl, ond nesh i godi a gweld chdi'n gadael.

ALLAN AR GUTO MEWN PENBLETH.